**Dyma ychydig o enghreifftiau o blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a allai ddod yn broblem ddifrifol yn ein dyfrffyrdd:**

## CLEFYDAU PYSGOD



Mae clefydau fel Firws Herpes Koi (a welir yn y llun) yn lladd pysgod a gall gau pysgodfeydd.

## BRIALLEN Y DŴR



Mae planhigion dŵr croyw fel briallen y dŵr yn blocio afonydd a llynnoedd gan ymyrryd â physgota. Nid yw briallen y dŵr wedi ymledu'n helaeth ym Mhrydain hyd yma ond os bydd yn lledu ymhellach, fel y gwnaeth mewn rhannau eraill o Ewrop, bydd yn costio £miliynau i'w rheoli.

## PERDYSEN REIBUS



Mae'r berdysen hon yn ysglyfaethwr gwancus ac yn lladd anifeiliaid bychain eraill fel ein perdysen frodorol a physgod ifanc, a gall hyn effeithio'n sylweddol ar yr holl ecosystem. Mae ei maint bychan (3 cm ar y mwyaf) yn golygu y gallai'n hawdd guddio ar rwydi ac esgidiau dŵr tamp, lle y gall oroesi am bythefnos.

# ATAL YR YMLEDIAD

Gallwch ganfod mwy am blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a sut i'w hatal rhag ymledu yn:

**nonnativespecies.org/checkcleandry**

@CheckCleanDryGB

Sganiwch y cod QR ar eich ffôn symudol

Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru Welsh Government

natural scotland SCOTTISH GOVERNMENT

NNSS GB non-native species secretariat

ANGLING TRUST THE VOICE OF ANGLING

Lluniau gan Trevor Renals ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

# Ydych chi'n mynd i bysgota?



Carp with Koi Herpes Virus

## Mae clefydau a phlanhigion ac anifeiliaid ymosodol yn lladd pysgod ac yn blocio dyfrffyrdd

## Peidiwch â'u helpu i ymledu ar eich offer

**EDRYCH GOLCHI SYCHU**

# ATAL YR YMLEDIAD

**Mae planhigion ac anifeiliaid ymosodol o bob rhan o'r byd wedi eu cyflwyno'n ddamweiniol i ddyfroedd ym Mhrydain. Mae dros hanner cant o wahanol rywogaethau eisoes wedi eu canfod yn ein llynnoedd, ein hafonydd a dyfrffyrdd eraill ac mae'r niferoedd sy'n cyrraedd o'r newydd yn cynyddu'n gyflym.**

Maent yn achosi prtoblemau amgylcheddol difrifol all fod yn ddi-droi'n ôl – megis lladd pysgod drwy ledaenu clefydau a gostwng lefelau ocsigen yn y dŵr, cystadlu'n llwyddiannus yn erbyn bywyd gwyllt brodorol arall, ac achosi niwed i ecosystemau. Mae planhigion ymosodol hefyd yn tagu dyfrffyrdd, gan ei gwneud yn anodd pysgota a chynyddu'r risg o lifogydd.

Gallant fod yn fychan ac anodd eu canfod felly mae'n hawdd iddynt ymledu ar offer a dillad tamp. **Cofiwch ddiogelu'r amgylchedd a'r pysgota a fwynhewch drwy gadw'ch offer yn lân o blanhigion ac anifeiliaid ymosodol.**

Mae hyd yn oed yn bwysicach Edrych Golchi Sychu os ydych chi'n mynd â'ch offer dramor, i sicrhau nad ydych yn dod ag unrhyw blanhigion neu anifeiliaid yn ôl gyda chi.

**Sicrhewch fod popeth yn lân ac wedi cael eu sychu'n drylwyr cyn i chi eu defnyddio eto ar ôl dod adre.**

## Cofiwch edrych yn ofalus ar y mannau hyn



## EDRYCH

**Edrychwch** ar eich gêr ar ôl dod allan o'r dŵr gan chwilio am fwd, anifeiliaid dŵr neu ddeunydd planhigion. Tynnwch unrhyw beth y byddwch yn ei ddarganfod, a'i adael yn y fan a'r lle.

## GOLCHI

**Golchwch** bopeth yn drylwyr cyn gynted ag y gallwch, gan roi sylw i rwydi, esgidiau pysgota a mannau sy'n damp ac yn anodd mynd atynt. Defnyddiwch ddŵr poeth os yn bosibl.

## SYCHU

**Sychwch** bopeth cyn hired â phosibl cyn eu defnyddio yn rhywle arall gan y gall rhai planhigion ac anifeiliaid ymosodol oroesi am bythefnos dan amodau tamp.

Gallwch wneud cais am ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth ynghylch Edrych Golchi Sychu ar gyfer eich clwb yn rhad ac am ddim o **nonnativespecies.org/checkcleandry**